DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad Practis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

## Practis Deintyddol Lodwig Villa, Bangor

Dyddiad Arolygu: 7 Chwefror 2017

Dyddiad Cyhoeddi: 5 Mai 2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Y Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn:** 0300 062 8163
**E-bost:** hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan:** www.agic.org.uk



ISBN Digidol 978-1-4734-9078-9


© Hawlfraint y Goron 2017

# Cynnwys

1. Cyflwyniad .... 2

2. Cyd-destun .... 3

3. Crynodeb .... 4

4. Canfyddiadau .... 5

   Ansawdd Profiad y Claf .... 5

   Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol .... 8

   Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .... 11

5. Y Camau Nesaf .... 13

6. Methodoleg .... 14

## 1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer yr holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar:

- Wneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cwblhaodd AGIC arolygiad o Bractis Deintyddol Lodwig Villa, Heol Caergybi, Bangor, LL57 2DP ar 7 Chwefror 2017.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd Practis Deintyddol Lodwig Villa yn cydymffurfio â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011, a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Cynhelir arolygiadau deintyddol ar ôl rhoi rhybudd, ac rydym yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- Ansawdd profiad y claf – Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eiriolwyr er mwyn sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull arolygu.
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol – Rydym yn asesu i ba raddau mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o safon uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth – Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r diwylliant yn gydnaws â darpariaeth gofal diogel ac effeithiol.  Rydym hefyd yn ystyried sut mae gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain mewn perthynas â safonau a chanllawiau perthnasol.

Mae rhagor o fanylion am ein methodoleg ar gael yn Adran 6 yr adroddiad hwn.

## 2. Cyd-destun

Mae Practis Deintyddol Lodwig Villa, Bangor yn darparu gwasanaethau deintyddol preifat yn unig, ac mae wedi'i leoli ym Mangor.

Mae tîm staff y practis yn cynnwys tri deintydd, un hylenydd, chwe nyrs ddeintyddol, dau dderbynnydd a rheolwr practis.

Darperir amrediad o wasanaethau deintyddol preifat.

## 3. Crynodeb

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth a oedd yn dangos bod Practis Deintyddol Lodwig Villa yn darparu gofal diogel ac effeithiol. Gwelsom y dull cynnes, cyfeillgar a phroffesiynol a ddangosai'r tîm deintyddol a'r derbynyddion tuag at gleifion. Dywedodd y cleifion a gwblhaodd holiaduron AGIC wrthym eu bod yn fodlon iawn ar y gofal a'r driniaeth y maent yn eu derbyn ym Mhractis Deintyddol Lodwig Villa.

Canfuom fod y practis yn gwneud y canlynol yn dda:

- Mae'r practis yn ymroddedig i ddarparu profiad cadarnhaol i gleifion ac roedd y staff y siaradom â nhw yn hapus yn eu swyddi ac yn deall eu cyfrifoldebau, roeddent yn gwrtais, yn ofalgar ac yn gwrando ar gleifion.
- Rhoddid digon o wybodaeth i gleifion wneud penderfyniad gwybodus ynglŷn â'u triniaeth, a gwelsom dystiolaeth bod cleifion yn fodlon ar y driniaeth a'r gwasanaeth a dderbyniwyd.
- Roedd gan y practis system ar waith ar gyfer casglu barn cleifion.
- Roedd digon o gyfleusterau clinigol ar gael, ac roeddent i'w gweld yn lân ac yn daclus, ac wedi'u trefnu'n dda.
- Roedd cofnodion cleifion o safon dda.
- Mae systemau ar gyfer llywodraethu a monitro ansawdd y gwasanaeth yn unol â gofynion y rheoliadau ar waith.
- Roedd y polisïau a'r gweithdrefnau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd ac roedd rheolaeth dros y gwahanol fersiynau.

Rydym yn argymell y gallai'r practis wella'r canlynol:

- Cynghorwyd y practis i sicrhau bod bin gwastraff glanweithiol yn cael ei ddarparu yng nghyfleusterau toiled y staff a'r cleifion.
- Dylid sicrhau bod dwy bowlen ar gael yn y sinc dadheintio.
- Dylai'r practis sicrhau bod tystysgrifau cofrestru AGIC ar gyfer pob deintydd yn y practis yn cael eu harddangos fel sy'n ofynnol gan y rheoliad.
- Dylid diweddaru polisïau diogelu plant ac oedolion i gynnwys manylion cyswllt y tîm diogelu lleol.

## 4. Canfyddiadau

### *Ansawdd Profiad y Claf*

***Gwelsom dystiolaeth bod y practis hwn yn ymroddedig i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion. Rhoddwyd gofal mewn modd prydlon ac urddasol.***

Cyn yr arolygiad, gwnaethom ofyn i'r practis ddosbarthu holiaduron AGIC ymysg cleifion er mwyn cael barn am y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cwblhawyd a dychwelwyd 16 ohonynt. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

> *"Bob amser yn dda iawn ac yn effeithlon iawn"*
>
> *"Fel claf nerfus iawn, rwyf bob amser yn gadael yn hapus ac yn teimlo'n well gan fod y driniaeth gan y deintydd yma'n wych"*
>
> *"Gwasanaeth ardderchog – cyfeillgar a chymwynasgar iawn"*
>
> *"Rwy'n gwbl fodlon ar y driniaeth a'r parch rwyf yn eu derbyn bob amser"*
>
> *"Staff hyfryd, croesawgar iawn"*
>
> *"Mae [enw aelod o staff] wedi bod yn galonogol iawn ac yn gymwys yn ei waith, ac rwyf wrth fy modd gyda'i waith"*
>
> *"Awyrgylch hyfryd, hamddenol, sy'n helpu'r claf i ymlacio a theimlo'n hyderus am y driniaeth mae'n ei derbyn"*

<u>Gofal gydag urddas</u>

Nododd pob un o'r cleifion eu bod yn fodlon ar y gofal a'r driniaeth roeddent wedi eu derbyn yn y practis, a'u bod yn cael croeso gan y staff. Gwelsom hefyd y dull cynnes, cyfeillgar a phroffesiynol roedd y staff yn ei ddefnyddio tuag at gleifion.

<u>Gofal amserol</u>

Mae'r practis yn ceisio sicrhau bod gofal deintyddol yn cael ei ddarparu'n brydlon, ac o'r holiaduron a gwblhawyd, dim ond tri chlaf a ddywedodd eu bod wedi profi oediadau byr erioed, ac nid oedd y rhain wedi bod yn broblem.

Dywedodd naw claf wrthym nad oeddent yn gwybod sut i gael mynediad at ofal deintyddol y tu allan i oriau. Roedd arwydd y tu allan i fynedfa'r adeilad yn rhoi'r

manylion cyswllt brys, a darparwyd y manylion hyn ar beiriant ateb y practis hefyd.  Mae manylion hefyd yn y daflen wybodaeth i gleifion.  Gwnaethom argymell bod y practis yn ystyried ffyrdd eraill o sicrhau bod yr holl gleifion yn ymwybodol o fanylion cyswllt y gwasanaeth y tu allan i oriau rhag ofn bod argyfwng.

Cadw’n iach

O'r 16 holiadur a gwblhawyd, dywedodd 12 claf wrthym fod eu hanghenion ieithyddol yn cael eu diwallu.  Roedd digon o daflenni a phosteri hybu iechyd deintyddol ar gael yn y dderbynfa a'r man aros, a oedd yn golygu bod gan gleifion fynediad at wybodaeth ynglŷn â sut i ofalu am eu hylendid ceg eu hunain.  Roedd rhestrau prisiau hefyd yn cael eu harddangos yn y man aros.

Gofal unigol

Roedd ymatebion o holiaduron cleifion yn dangos bod yr holl gleifion yn teimlo eu bod yn derbyn digon o gyngor am eu triniaeth unigol, a'u bod yn hapus iawn gyda'r gwasanaeth roeddent yn ei dderbyn.  Dywedodd cleifion wrthym eu bod yn cael croeso cynnes bob amser.  Roedd yr holiaduron yn dangos bod staff yn cymryd amser i wrando ar gleifion bob amser, ac yn rhoi cyngor iddynt ynglŷn ag unrhyw bryderon neu gwestiynau sydd ganddynt.

Mae'r practis wedi'i osod ar ddau lawr.  Mae’r dderbynfa, y man aros, dwy ystafell driniaeth ddeintyddol ac ystafell driniaeth yr hylenydd yn hygyrch i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn.  Mae gan y maes parcio le parcio anabl wedi ei neilltuo a mynediad anabl i'r adeilad.

Roedd un toiled deuryw at ddefnydd cleifion ac un toiled ar gyfer staff, y ddau ohonynt ar y llawr daear.  Roedd arwyddion clir at y ddau gyfleuster ac roeddent i'w gweld yn lân; fodd bynnag, nid oedd unrhyw fin gwastraff glanweithiol yn yr un ohonynt.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Cynghorwyd y practis i sicrhau bod bin gwastraff glanweithiol yn cael ei ddarparu yng nghyfleusterau toiled y staff a'r cleifion.***

Gwelsom fod gweithdrefn gwyno ar waith yn y practis .  Gwnaethom sylwi nad oedd y weithdrefn yn cynnwys manylion cyswllt yr awdurdod cofrestru ac unionwyd hyn gan y practis yn syth ar ôl ein hymweliad.

Roedd y weithdrefn gwyno'n cael ei harddangos yn amlwg yn y dderbynfa, y man aros ac ym mhob ystafell driniaeth.  Fodd bynnag, er y mesurau hyn, gwnaethom sylwi o'r holiaduron a gwblhawyd fod dros hanner y cleifion wedi nodi nad oeddent yn gwybod sut i wneud cwyn.  Gwnaethom awgrymu bod y

practis yn ystyried ffyrdd eraill o wneud yn siŵr bod pob claf yn gwybod sut i wneud cwyn.

Gwnaethom drafod dulliau'r practis ar gyfer casglu adborth gan y cleifion; ac mae'r practis yn cyflawni hyn trwy ddarparu holiaduron i'w cleifion yn y dderbynfa.  Gwelsom dystiolaeth bod y practis wedi gweithredu ar adborth ac wedi ei ddefnyddio i ddylanwadu ar newidiadau yn y practis.  Gwnaethom gynghori'r practis i arddangos dadansoddiad o adborth cleifion, gan ddangos bod eu hadborth unigol wedi cael ei gasglu ac y gweithredwyd arno i ategu dysgu a gwelliant yn y practis.

## *Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol*

**Canfuom fod gofal deintyddol diogel ac effeithiol yn cael ei ddarparu ar gyfer cleifion. Roedd yr ystafelloedd triniaeth yn cynnwys yr holl offer perthnasol ac roeddent wedi'u cynllunio a'u trefnu i gynorthwyo'r tîm i weithio'n effeithlon, ac roeddent yn amlwg yn lân iawn ac mewn cyflwr da. Roedd cofnodion cleifion o safon dda.**

Gofal diogel

Canfuom fod y practis yn cael ei reoli gyda'r bwriad o fodloni Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Diwygio) 2011, a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill, er mwyn sicrhau iechyd, diogelwch a llesiant cleifion a staff. Roedd y practis yn darparu amgylchedd glân ac roedd yr ystafelloedd triniaeth yn olau ac yn awyrog.

Gwnaethom edrych ar y cyfleusterau clinigol yn yr ystafelloedd triniaeth a chanfod eu bod yn cynnwys yr offer perthnasol ar gyfer diogelwch cleifion a'r tîm deintyddol. Gwelsom fod yr ystafelloedd triniaeth yn amlwg yn lân iawn ac mewn cyflwr da. Roeddent hefyd wedi'u cynllunio a'u trefnu i gynorthwyo'r tîm i weithio'n effeithlon.

Gwelsom dystiolaeth bod trefniadau addas ar waith ar gyfer defnyddio offer radiograffig (pelydr-X) yn ddiogel, a gwelsom dystiolaeth o hyfforddiant cyfredol ar ymbelydredd ïoneiddio ar gyfer yr holl ddeintyddion. Yn ystod ein hymweliad, nid oedd y llythyr yn hysbysu'r Awdurdod Gweithredu Iechyd a Diogelwch am amddiffyniad radiograffig ar gael; fodd bynnag, anfonwyd cadarnhad bod y practis wedi'i gofrestru gyda'r Awdurdod Gweithredu Iechyd a Diogelwch at AGIC yn union ar ôl ein hymweliad. Dim ond yn ddiweddar y cynhaliwyd y gwaith gwasanaethu ar gyfarpar radiograffig yn y practis ac felly nid oedd y tystysgrifau ar gael ar ddiwrnod yr arolygiad. Fodd bynnag, gwelsom e-bost gan y cwmni'n cadarnhau'r gwaith gwasanaethu ac mae'r tystysgrifau wedi cael eu hanfon at AGIC ers hynny.

Ni ellid dod o hyd i'r dystysgrif ar gyfer gwaith gwasanaethu un o'r cywasgyddion i ni ei gweld; fodd bynnag, mae wedi cael ei hanfon at AGIC ers hynny.

Cawsom ein hysbysu gan y practis fod profion dyfeisiadau cludadwy'n cael eu cynnal bob dwy flynedd ar yr holl gyfarpar trydanol i sicrhau bod dyfeisiau trydanol bach yn ddiogel i'w defnyddio. Fodd bynnag, nid oedd y dystysgrif ar gael i ni ei gweld ac mae wedi cael ei hanfon at AGIC ers hynny. Roedd diffoddwyr tân wedi'u gosod drwy'r adeilad a gwelsom dystiolaeth o gontract cynnal a chadw cyfarpar tân cyfredol. Roedd arwyddion ar gyfer yr allanfeydd

brys wedi'u harddangos yn glir, ac roedd poster iechyd a diogelwch wedi’i arddangos yn glir.

Canfuom fod yr holl gemegion yn cael eu cadw'n ddiogel ac nid oedd yr un ohonynt wedi ei adael mewn mannau cyhoeddus. Roedd ffeil ar gael a oedd yn cynnwys nifer o ddalenni data yn ymwneud â’r Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH), ac roedd asesiadau risg perthnasol ar waith a oedd wedi cael eu diweddaru'n ddiweddar.

Gwelwyd asesiadau risg iechyd a diogelwch cyffredinol ar y diwrnod ac roedd y rhain wedi cael eu hadolygu'n ddiweddar.

Roedd gweithdrefnau ar waith yn y practis a oedd yn dangos sut i ymateb i argyfyngau meddygol cleifion. Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod y tîm wedi derbyn yr holl hyfforddiant perthnasol ac roedd y practis wedi penodi dau swyddog cymorth cyntaf.

Roedd y cyffuriau a ddefnyddir mewn argyfwng yn cael eu cadw’n ddiogel, ac roeddent ar gael ar unwaith pe bai argyfwng meddygol (claf yn llewygu/cwympo) yn y practis. Gwelsom dystiolaeth bod system effeithiol ar waith i wirio'r cyfarpar a'r cyffuriau a ddefnyddir mewn argyfwng i sicrhau bod eu dyddiadau dod i ben yn gyfredol a'u bod yn barod i'w defnyddio.

Roedd gan y practis gyfleusterau pwrpasol ar gyfer glanhau a sterileiddio (dadheintio) offer deintyddol, fel yr argymhellir gan Femorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, a gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod y practis yn cynnal archwiliadau rheoli heintiau bob blwyddyn. Roedd gan y practis ddau gyfleuster pwrpasol ar gyfer glanhau a sterileiddio ei offer deintyddol a sylwyd mai dim ond un sinc dadheintio oedd yn y ddau gyfleuster. Fel yr argymhellir gan Femorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, dylai fod dwy sinc bwrpasol ar gael ar gyfer gwaith dadheintio, un ar gyfer golchi a glanhau offer, a'r llall ar gyfer eu rinsio. Dywedodd y practis wrthym fod cynlluniau ar waith i osod dwy sinc yn yr ystafell ddadheintio, yn ystod mis Awst 2017 o bosibl. Nes bydd dwy sinc yn cael eu gosod, rydym yn argymell y dylid rhoi dwy bowlen ar waith oherwydd ar ôl glanhau offer yn y sinc neu bowlen gyntaf, gall y gweithredwr rinsio'r offer glân yn effeithlon yn yr ail sinc neu bowlen a fydd yn lleihau'r perygl o ail-heintio'r offer gyda sylweddau glanhau neu sebon.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylid sicrhau bod dwy bowlen ar gael yn y sinc dadheintio.***

Roeddem yn gallu gweld bod system ar waith yn y practis ar gyfer rheoli gwastraff yn briodol ac yn ddiogel. Roedd dogfennau contract ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff peryglus (clinigol) a gwastraff nad yw'n beryglus

(domestig). Gwelsom hefyd fod y gwastraff wedi cael ei wahanu rhwng y bagiau/cynwysyddion lliw dynodedig yn unol â'r dull gwaredu cywir.

Gwelsom fod yr holl staff wedi cwblhau hyfforddiant mewn amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Gwelsom fod gan y practis bolisi diogelu ar waith ar gyfer plant ac oedolion agored i niwed; fodd bynnag, roedd angen diweddaru'r polisïau i gynnwys manylion cyswllt y tîm diogelu lleol.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae angen diweddaru'r polisi diogelu plant a'r polisi diogelu oedolion i gynnwys manylion cyswllt y tîm diogelu lleol.***

Gofal effeithiol

Roedd yn amlwg bod y practis yn ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Roeddem yn gallu gweld bod y practis wedi cwblhau archwiliadau perthnasol, gan gynnwys rheoli heintiau, iechyd a diogelwch, cofnodion cleifion ac archwiliadau radiograffig.

Gwelwyd tystiolaeth bod cofnodion cleifion o safon dda, a oedd yn dangos bod gofal wedi cael ei gynllunio a'i ddarparu i sicrhau diogelwch a llesiant cleifion.

Adolygwyd sampl o 15 o gofnodion cleifion, a oedd yn cynnwys cofnodion a gwblhawyd gan bob un o'r deintyddion a'r hylenydd. Ar y cyfan, canfuom fod cofnodion gofal y cleifion yn cynnwys gwybodaeth ddigonol ynghylch trafodaethau a gynhaliwyd ynglŷn â chynllunio triniaeth, dewisiadau ar gyfer triniaeth a'r risgiau a manteision. Roedd tystiolaeth hefyd bod yr holl gleifion yn derbyn cynllun triniaeth a bod cydsyniad cleifion yn cael ei sicrhau.

Mae'r deintyddion hefyd yn cyflawni sgrinio canser y geg ar gyfer pob un o'u cleifion ac yn darparu cyngor ar iechyd y geg a rhoi'r gorau i ysmygu i gleifion yn ôl yr angen yn ystod eu hapwyntiad. Gwnaethom gynghori'r staff clinigol i gofnodi yn nodiadau cleifion bod sgrinio ar gyfer canser y geg wedi cael ei gyflawni.

## *Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Canfuom dystiolaeth bod y gwasanaeth yn cael ei reoli'n dda iawn gyda systemau effeithiol i gefnogi rheolaeth ac arweinyddiaeth gyffredinol y practis. Roedd amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith. Roedd y tîm staff i'w gweld yn hapus yn eu swyddogaethau ac yn gymwys i gyflawni eu cyfrifoldebau.**

Gwelsom fod gan y practis arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir.  Gan fod y rhan fwyaf o'r staff wedi gweithio gyda'i gilydd ers blynyddoedd lawer, roedd cydberthynas dda rhyngddynt.

Gwelsom ffolderi sefydlu staff wedi'u cwblhau ac roedd y rhain wedi'u cynllunio'n dda. Gwelsom dystiolaeth o arfarniadau staff blynyddol a gwelsom hefyd fod gan yr holl staff fynediad at amrywiaeth eang o hyfforddiant; gan fodloni anghenion datblygiad proffesiynol parhaus. [1]

Gwelsom dystiolaeth bod cyfarfodydd tîm ffurfiol yn cael eu cynnal bob mis ac roedd y rhain yn cael eu cofnodi.  Dywedodd y practis wrthym nad oedd cyfarfodydd wythnosol y nyrsys yn cael eu cofnodi; fodd bynnag, bydd trefniadau'n cael eu rhoi ar waith i gofnodi'r cyfarfodydd hyn.

Gwnaethom gadarnhau bod gan yr holl staff perthnasol wiriad dilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, ac roedd yr holl staff clinigol wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a gwelsom gadarnhad o yswiriant indemniad.

Gwelsom fod tystysgrif cofrestru AGIC dau o'r deintyddion wedi'i harddangos, fel sy'n ofynnol dan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008.  Fodd bynnag, nid oedd tystysgrif un o'r deintyddion yn cael ei harddangos ac ni ellid dod o hyd iddi. Gwnaethom gynghori'r practis i gysylltu â'r tîm cofrestru yn AGIC er mwyn iddynt gyhoeddi tystysgrif yn ei lle ac fe wnaeth y practis hynny ar unwaith.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylid arddangos tystysgrif cofrestriad AGIC un o'r deintyddion fel sy'n ofynnol gan y rheoliad.***

---

[1]https://archive.gdc-uk.org/Dentalprofessionals/CPD/Pages/default.aspx

Gwelsom gofnodion ynglŷn â statws imiwnedd Hepatitis B pob aelod o staff clinigol sy'n gweithio yn y practis.

Gwnaethom edrych ar y polisïau a'r gweithdrefnau sydd ar waith a chanfod eu bod yn adlewyrchu arfer go iawn, eu bod wedi cael eu hadolygu ac yn cynnwys dyddiadau adolygu a / neu fod rheolaeth dros y gwahanol fersiynau. Fodd bynnag, nid oedd system ar waith i ddangos bod staff wedi adolygu'r polisïau hyn yn dilyn unrhyw newidiadau. Felly Gwnaethom gynghori'r practis i gyflwyno system ar gyfer cofnodi llofnodion y staff.

## 5. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd Practis Deintyddol Lodwig Villa, Bangor yn mynd i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn y practis, gan gynnwys amserlenni ar gyfer hynny.

Mae angen i'r cam(au) a gymerir gan y practis mewn ymateb i'r problemau a nodir yn y cynllun gwella fod yn gyraeddadwy, yn amserol, yn fesuradwy, yn benodol, yn uchelgeisiol ac yn synhwyrol. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC ynglŷn â'r materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella'r practis yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, dylai'r practis roi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

## 6. Methodoleg

Bydd unrhyw ddeintydd sy’n gweithio yn y practis ac sydd wedi’i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat yn agored i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008[2] a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.[3] Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau’r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Adolygwyd dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau gennym yn ystod yr arolygiad, yn cynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweliadau â staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Trafodaethau â staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau’r practis
- Archwilio offer a’r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (pan fo hynny’n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC.

Rydym yn cynnig trosolwg o’n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol ar ddiwedd pob arolygiad er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Tynnir sylw’r practis deintyddol a’r bwrdd iechyd at unrhyw bryderon brys sy’n codi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o’r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

---

[2] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2008/1976/contents/made

[3] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o’r modd y gweithredwyd rheoliadau yn y practis yr ymwelwyd ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

*Atodiad A*

## Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

## Practis: Practis Deintyddol Lodwig Villa, Bangor

## Dyddiad yr Arolygiad: 7 Chwefror 2017

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Rheoliad / Safon | Camau Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd Profiad y Claf** | | | | | |
| Tudalen 6 | Dylai'r practis sicrhau bod bin gwastraff glanweithiol yn cael ei ddarparu yng nghyfleusterau toiled y staff a'r cleifion. | Rheoliad 14 (1) (d) | Mae'r practis wedi darparu bin gwastraff glanweithiol yng nghyfleusterau toiled y staff a'r cleifion. | Sally Mason<br>Rheolwr y Practis | Cwblhawyd<br>9 Mawrth 2017 |
| **Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol** | | | | | |
| Tudalen 9 | Dylid sicrhau bod dwy bowlen ar gael yn y sinc dadheintio. | Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, Adran 2.4 (r) a throednodyn | Mae'r practis wedi darparu dwy bowlen ar gyfer pob sinc dadheintio. | Sally Mason<br>Rheolwr y Practis | Cwblhawyd<br>9 Mawrth 2017 |

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Rheoliad / Safon | Camau Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| Tudalen 10 | Mae angen diweddaru'r polisi diogelu plant a'r polisi diogelu oedolion i gynnwys manylion cyswllt y tîm diogelu lleol. | Safon Iechyd a Gofal 2.7 | Mae polisïau'r practis ar gyfer diogelu plant ac oedolion wedi cael eu diweddaru i gynnwys manylion cyswllt y tîm diogelu lleol. | Sally Mason<br>Rheolwr y Practis | Cwblhawyd<br>9 Mawrth 2017 |
| **Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth** | | | | | |
| Tudalen 11 | Rhaid arddangos tystysgrif cofrestriad AGIC un o'r deintyddion fel sy'n ofynnol gan y rheoliad. | Rheoliad 8 | Mae'r dystysgrif wedi cael ei harddangos yn awr. | Sally Mason<br>Rheolwr y Practis | Cwblhawyd<br>21 Mawrth 2017 |

Cynrychiolydd y Practis: **Sally Mason**

**Enw (llythrennau bras): Mrs Sally Mason**

**Teitl: Rheolwr y Practis**

**Dyddiad: 15 Mawrth 2017**